



CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

# ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

AR Y CYNNIG I:

**AIL-DREFNU DARPARIAETH MEITHRIN YM MHENARTH  
O FIS MEDI 2022 TRWY:**

- UNO YSGOL FEITHRIN BUTE COTTAGE AC YSGOL GYNRADD EVENLODE; AC
- UNO YSGOL FEITHRIN COGAN AC YSGOL GYNRADD COGAN.



*Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille. Gellir trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.*

*Cysylltwch â ni ar 01446 709828 i drefnu hyn.*

# CYNNWYS

1.	Cefndir .....	3
1.2.	Adroddiad Ymgynghorol .....	4
1.3.	Hysbysiad Statudol .....	4
2.	Gwrthwynebiadau i'r Cynnig .....	5
2.2.	Gwrthwynebiadau a godwyd sy'n berthnasol i'r ddau gynnig: .....	9
	Thema Gwrthwynebiad 1.....	9
	Thema Gwrthwynebiad 2.....	11
	Thema Gwrthwynebiad 3.....	13
	Thema Gwrthwynebiad 4.....	14
	Thema Gwrthwynebiad 5.....	15
	Thema Gwrthwynebiad 6.....	16
	Thema Gwrthwynebiad 7.....	16
	Thema Gwrthwynebiad 8.....	18
	Thema Gwrthwynebiad 9.....	19
2.3.	Gwrthwynebiadau a godwyd mewn perthynas â chynnig 1 (Uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode): .....	20
	Thema Gwrthwynebiad 10.....	20
	Thema Gwrthwynebiad 11.....	21
	Thema Gwrthwynebiad 12.....	21
	Thema Gwrthwynebiad 13.....	21
2.4.	Gwrthwynebiadau a godwyd mewn perthynas â chynnig 2 (Uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan):.....	22
	Thema Gwrthwynebiad 14.....	22
	Thema Gwrthwynebiad 15.....	24
3.	Cwestiynau Cyffredin .....	25
4.	Casgliad .....	28
5.	Argymhellion .....	29
5.	Atodiad 1 – Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau.....	30

# 1. CEFNDIR

Cynhaliodd y Cyngor ymarfer ymgynghori statudol ar y cynnig rhwng 20 Medi 2021 a 5 Tachwedd 2021. Nod yr ymgynghoriad oedd hysbysu ymgynghoreion penodedig ynghylch y cynnig ad-drefnu ysgolion a oedd yn cael ei gynnig o dan adran 2.1 a 2.3 y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae adran 2.1 yn cyfeirio at gau ysgol a gynhelir. Mae adran 2.3 yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys newid ystod oedran yr ysgol o un flwyddyn neu fwy. Roedd y cynigion ar gyfer yr ysgolion fel a ganlyn:

## **Cynnig 1: Uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode trwy:**

- Newid ystod oedran isaf y disgyblion yn Ysgol Gynradd Evenlode o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Evenlode i wneud lle i'r 96 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol;
- Cau Ysgol Feithrin Bute Cottage a throsglwyddo holl aelodau staff a disgyblion y cyfnod meithrin i fod o dan lywodraethiant Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

## **Cynnig 2: Uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan trwy:**

- Newid ystod oedran isaf y disgyblion yn Ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Cogan i wneud lle i'r 96 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol ;
- Cau Ysgol Feithrin Cogan a throsglwyddo holl aelodau staff a disgyblion y cyfnod meithrin i fod o dan lywodraethiant Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022.

Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Rhoddodd gyfle i ymgynghoreion penodedig yn ogystal ag aelodau o'r gymuned leol ddysgu am y cynnig ac i Gabinet Cyngor Bro Morgannwg i glywed barn pawb sydd â buddiant er mwyn iddynt allu cael eu cymryd i ystyriaeth cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

Yn ystod yr ymarfer ymgynghori, cafwyd 238 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, sef 5 Tachwedd 2021, a oedd yn berthnasol i'r ddau gynnig. Mewn perthynas â Chynnig 1, roedd 48 ymateb o blaid y cynnig; 169 ymateb yn erbyn y cynnig; tra nad oedd gan 21 ymateb unrhyw farn. Mewn perthynas â Chynnig 2, roedd 47 ymateb o blaid y cynnig; 73 ymateb yn erbyn y cynnig; tra nad oedd gan 118 ymateb unrhyw farn. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn yr adroddiad ymgynghori, sydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor.

## 1.1. ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cyhoeddwyd adroddiad ymgynghori yn dilyn yr ymarfer ymgynghori (<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/Consultations/Nursery-Provision-Penarth-Consultation.aspx>). Cafodd yr adroddiad ymgynghori ei ystyried gan Gabinet y Cyngor ar 10 Ionawr 2022, a gellir ei weld trwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/ Committee%20Reports/Cabinet/2022/22-01-10/Minutes.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Committee%20Reports/Cabinet/2022/22-01-10/Minutes.pdf).

## 1.2. HYSBYSIAD STATUDOL

Ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori ar 10 Ionawr 2022, penderfynodd Cabinet y Cyngor fwrw ymlaen â'r cynnig a chymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar y cynnig ar 16 Chwefror 2022, am gyfnod o 28 diwrnod i ganiatáu ar gyfer gwrthwynebiadau. Daeth y cyfnod hysbysiad statudol i ben ar 16 Mawrth 2022.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad ar wefannau'r ysgolion ac ar wefan Cyngor Bro Morgannwg, a gellir ei weld trwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/Consultations/Nursery-Provision-Penarth-Consultation.aspx>

Yn ogystal, arddangoswyd copi caled o'r hysbysiad ym mhrif fynedfeydd yr ysgolion. Dosbarthwyd copïau o'r hysbysiad i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, llywodraethwyr, ac aelodau staff, yn ogystal ag ymatebwyr a oedd yn dymuno cael eu hysbysu trwy e-bost. Darparwyd copi o'r llythyr a'r hysbysiad, fel atodiad i'r neges e-bost, i bob sefydliad ac ymgynghorai arall sy'n ofynnol o dan God Trefniadaeth Ysgolion 2018, yn ogystal â dolen i'r hysbysiad ar y wefan.

Lle ceir gwrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol, rhaid cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu sy'n crynhoi'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny.

## 2. GWRTHWYNEBIADAU I'R CYNNIG

Derbyniodd y Cyngor 111 o wrthwynebiadau unigol erbyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu. Roedd 24 o'r gwrthwynebiadau hyn yn cynnwys yr un llythyr a gyflwynwyd gan nifer o drigolion. Mae crynodeb o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor. Mae crynodeb graffigol o nifer yr ymatebion i bob thema gwrthwynebiad ar gael yn Atodiad 1.

Mae'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd wedi'u hystyried a'u grwpio o dan themâu troswaol gwahanol. Mae nifer y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd o dan bob thema wedi'u darparu, ynghyd â chrynodeb byr o'r materion a gwmpesir gan y thema. Yna, darperir ymateb y Cyngor i'r thema sy'n amlinellu safbwynt y Cyngor.

Mae'r holl wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ar gael i aelodau Cabinet Cyngor Bro Morgannwg eu hystyried, ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad oedd 16 Mawrth 2022. Derbyniodd y Cyngor 4 sylw hwyr gan aelodau'r cyhoedd. Yn anffodus, gan fod y sylwadau wedi dod i law ar ôl dyddiad cau'r ymgynghoriad, nid ydynt wedi'u hystyried ymhellach yn yr Adroddiad. I grynhoi, cododd y cynrychiolaethau hwyr y gwrthwynebiadau canlynol:

- Colli hunaniaethau'r ysgolion meithrin;
- Colli darpariaeth bwrpasol yr ysgolion meithrin;
- Roedd rhan fwyaf yr ymgynghoreion yn gwrthwynebu'r cynnig;
- Adnoddau annigonol i gynnal ansawdd yr addysg;
- Proses ymgynghori annigonol.

Er nad yw'r cynrychioliadau uchod wedi'u hystyried yn uniongyrchol yn yr adroddiad hwn, mae'r gwrthwynebiadau a godwyd wedi'u nodi mewn ymatebion eraill a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.

Dylid nodi bod deiseb ar ran rhanddeiliaid Ysgol Feithrin Bute Cottage wedi'i lansio ar 16 Medi 2021, yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ac mae wedi derbyn 20 llofnod arall ers drafftio'r Adroddiad Ymgynghori ym mis Rhagfyr 2021. Cyfanswm y llofnodwyr ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn yw 1,158 (Mawrth 2022). Gellir gweld y ddeiseb drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

[www.change.org/p/vale-of-glamorgan-council-save-bute-cottage-nursery-school?utm\\_source=share\\_petition&utm\\_medium=custom\\_url&recruited\\_by\\_id=ebf3c900-17d8-11ec-a8c6-f3fa967fb711](https://www.change.org/p/vale-of-glamorgan-council-save-bute-cottage-nursery-school?utm_source=share_petition&utm_medium=custom_url&recruited_by_id=ebf3c900-17d8-11ec-a8c6-f3fa967fb711)

Dim ond gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ysgrifenedig neu drwy e-bost sydd wedi'u hystyried fel rhan o'r adroddiad gwrthwynebu hwn. Fodd bynnag, ystyrir bod y rhesymau a nodir yn y ddeiseb wedi'u cwmpasu gan wrthwynebiadau dilys a gyflwynwyd i'r Cyngor.

## 2.1. GWRTHWYNEBIADAU AELODAU LLEOL

Yn ogystal, derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cynnig gan aelodau lleol o'r Cyngor. Ymatebodd un aelod lleol fel rhan o'r cyfnod gwrthwynebu yn rhinwedd ei swydd fel Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr o fewn Cyngor Bro Morgannwg. Cyflwynodd y Cyngorydd George Carroll wrthwynebiad i'r cynnig ar 15 Mawrth 2022 a oedd yn datgan y canlynol:

“Annwyl Paula,

### **Parthed: Ymgynghoriad ar y cynigion i ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth o fis Medi 2022**

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â'r ymgynghoriad uchod, yn rhinwedd fy swydd fel Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr ar Gyngor Bro Morgannwg.

Fel grŵp, rydym yn gwrthwynebu'r ddau gynnig yn gryf, gan nad ydym yn credu eu bod nhw'n gwasanaethu buddiannau'r disgyblion. Yn fy marn i, mae'n hollbwysig bod y ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yn cael ei chynnal.

Fel y gwyddoch, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cychwynnol ar y cynigion yn yr hydref y llynedd. Roedd mwyafrif clir o'r ymatebwyr a fynegodd farn ar y ddau gynnig yn gwrthwynebu'r cynlluniau i uno. Mewn perthynas â Bute Cottage, gwnaeth 71% o'r 238 o ymatebwyr eu gwrthwynebiad yn glir. Mae'n destun gofid mawr fod yr ymateb pendant hwn wedi'i anwybyddu.

Credwn fod y strwythurau arweinyddiaeth presennol yn gwasanaethu anghenion y disgyblion yn dda. Mae addysg blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan hanfodol yn natblygiad plentyn, ar gyfnod hollbwysig. O'r herwydd, mae'n fuddiol iawn cael ysgolion meithrin y mae eu harweinyddiaeth yn canolbwyntio'n llwyr ar anghenion plant oed meithrin. Os bydd yr uno arfaethedig yn mynd yn ei flaen, bydd yn niweidiol i ddatblygiad ein plant. Rhennir y farn hon gan rieni, llywodraethwyr ac athrawon.

O ganlyniad, rydym yn annog y Cyngor i ddileu'r cynigion hyn a chynnal y ddarpariaeth meithrin presennol yn Bute Cottage a Cogan.

Diolch am ystyried ein pryderon, edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthy ch chi.”

---

## YMATEB Y CYNGOR

Mewn ymateb i'r materion a godwyd yn y gwrthwynebiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Lleol, darparodd y Cyngor yr ymatebion canlynol:

### **Mae mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn gwrthwynebu'r cynnig**

Cydnabyddir bod cyfran uchel o'r ymgynghoreion o'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd rhwng 20 Medi 2022 a 5 Tachwedd 2022 wedi gwrthwynebu'r cynnig. Fodd bynnag, nid yw'r ymgynghoriad statudol yn refferendwm sy'n galw ar benderfynwyr i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar y gefnogaeth fwyaf. Mae'r broses ymgynghori yn gyfle i'r penderfynwyr wneud eu cynnigion yn hysbys i'r cyhoedd a gwahodd sylwadau ar y cynnigion er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n gwneud y penderfyniadau yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae hynny yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Cododd y broses ymgynghori nifer o themâu yr oedd ymatebwyr yn pryderu yn eu cylch, a rhoddodd y Cyngor ymateb manwl iddynt fel rhan o'r Adroddiad Ymateb i'r Ymgynghoriad. Yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad Ymateb i'r Ymgynghoriad, penderfynodd y Cabinet, sef y penderfynwr ar gyfer y cynnig hwn, symud ymlaen â'r cynnig i'r cam nesaf a chyhoeddwyd Hysbysiad Statudol. Arweiniodd y cyfnod gwrthwynebu ar gyfer yr hysbysiad statudol at 111 o wrthwynebwyr i'r cynnig, sy'n ostyngiad o'r 238 o ymatebwyr (169 o wrthwynebiadau i Gynnig 1 a 73 o wrthwynebiadau i Gynnig 2) a dderbyniwyd fel rhan o'r broses ymgynghori.

Cydnabyddir bod nifer uchel o wrthwynebiadau i'r cynnig o hyd, ond mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny er mwyn caniatáu i Gabinet y Cyngor wneud penderfyniad gwybodus cyn symud y cynnig yn ei flaen, neu ei dynnu'n ôl. Er bod y gwrthwynebiadau wedi'u crynhoi at ddibenion yr adroddiad hwn, darparwyd gwrthwynebiadau llawn i'r Cynghorwyr cyn cyfarfod y Cabinet i sicrhau bod gwrthwynebiadau wedi'u hystyried yn llawn.

### **Mae'r cynnigion yn niweidiol i ddatblygiad addysgol**

Ni ystyrir bod y model addysg 3-11 a gynhigiwyd yn arwain at ddeilliannau addysgol gwael cynhenid. Yn hytrach, caiff ei ystyried yn fodel addysg effeithlon sy'n darparu cydraddoldeb darpariaeth ar draws Bro Morgannwg. Tra bod y Cyngor yn deall bod manteision cysylltiedig â'r model ysgolion meithrin pwrpasol, ni ellir darparu'r model hwn ar draws Bro Morgannwg oherwydd y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â rheoli'r ddarpariaeth. O ran y model addysgol, mae gwaith ymchwil amrywiol yn bodoli sy'n cefnogi modelau gwahanol. Fodd bynnag, gyda chymorth ariannol Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth y DU, ymchwiliodd yr astudiaethau hydredol, "*Effective Provision of Pre-school Education*" (EPPE) a "*Researching Effective Pedagogy in the Early Years*" (REPEY), 3,000 o blant 3+ oed mewn 141 o leoliadau cyn-ysgol yn Lloegr. Roedd yr astudiaeth fanwl hon yn cwmpasu sampl a chyfnod amser sylweddol, ac mae wedi cael ei defnyddio i lywio polisïau addysgol yn y DU.

Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys mathau gwahanol o ddarpariaeth cyn-ysgol, gan gynnwys dosbarthiadau meithrin (darpariaeth o fewn Ysgolion Cynradd) ac ysgolion meithrin AALI (meithrinfeydd pwrpasol a reolir gan yr AALI). Nododd yr astudiaeth y deilliannau allweddol a gafodd y gwahanol leoliadau addysg cyn-ysgol ar ddeilliannau addysgol disgyblion dros eu cyfnod mewn addysg, gan nodi'r arferion a oedd o'r budd mwyaf i'r disgyblion. Mae'r gwaith ymchwil wedi dangos bod y lleoliadau cyn-ysgol mwyaf effeithiol (o ran deilliannau deallusol, cymdeithasol a thueddiadol) yn sicrhau cydbwysedd rhwng y cyfleoedd a ddarperir i blant elwa ar waith grŵp a gychwynnir gan yr athro, a darpariaeth gweithgareddau chwarae a ddewisir yn rhydd, ond sydd hefyd yn gallu bod yn addysgiadol. Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos cysylltiad rhwng gwahaniaethu cwricwlaid a pharu o ran her wybyddol, a 'meddwl ar y cyd parhaus'. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu po orau y mae lleoliad yn llwyddo o ran pob un o'r dimensiynau hyn o ymarfer pedagogaid, y mwyaf effeithiol ydyw. Mae'r lleoliadau mwyaf effeithiol hefyd yn mabwysiadu polisïau cymdeithasol / ymddygiadol sy'n cynnwys staff wrth gefnogi plant i resymoli a siarad. Nid yw'r lleoliadau a ddarperir ar lefel cyn-ysgol yn cael eu pennu gan y math o feithrinfa, ond yn hytrach gan yr arferion gwaith a'r cyfleoedd dysgu a ddarperir.

O ran dystiolaeth leol bod y model 3-11 yn gweithio'n dda ym Mro Morgannwg, mae'r holl ysgolion cynradd a reolir gan yr AALI yn yr Awdurdod yn cynnig darpariaeth feithrin, ac eithrio Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas. Mae mwyafrif adroddiadau Estyn ar gyfer yr ysgolion cynradd yn yr Awdurdod sy'n cynnig darpariaeth feithrin wedi cael sgôr 'da' neu 'ragorol', sy'n dangos nad yw'r model 3-11 wedi arwain at ddeilliannau dysgu gwaeth i ddisgyblion sy'n mynychu'r math hwn o ysgol. Yn ogystal, nododd Estyn mewn ymatebion i'r ymgynghoriad bod "y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o ran addysg, darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth".

Nod y cynnig yw sicrhau bod yr arferion da presennol yn yr ysgolion meithrin yn cael eu cynnal. Os caiff y cynigion eu cymeradwyo, byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda staff a llywodraethwyr i gefnogi'r trawsnewidiad i'r model newydd. Ffocws allweddol y trawsnewidiad hwn fyddai sicrhau bod yr ysgolion yn cynnal ac yn adeiladu ar arfer gorau, a bod disgyblion yn cael y ddarpariaeth orau o'r cyfnodau meithrin a chynradd.

Nodir ei bod yn debygol y byddai newidiadau i ethos cyffredinol yr ysgolion yn ehangach fel rhan o'r trawsnewidiad i'r cwricwlwm newydd, ond byddai hwn yn gyfle i'r ysgolion meithrin a chynradd adeiladu ar ddulliau llwyddiannus a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r ddwy Ysgol Gynradd wedi datgan yn gyhoeddus, mewn ymateb i'r ymgynghoriad, y byddai natur arbenigol y ddarpariaeth feithrin yn cael ei chynnal a byddant yn mynd ati i geisio integreiddio hyn i gamau ehangach yr ysgol. Mae Cyrff Llywodraethu'r ddwy Ysgol Gynradd wedi datgan y byddent yn ceisio gwella datblygiad proffesiynol staff trwy gydweithio dyfnach a rhannu



arbenigedd a gwybodaeth arbenigol am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn gwella'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar hyd yn oed ymhellach, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu i'r plant yn y cymunedau hyn.

## 2.2. GWRTHWYNEBIADAU A GODWYD SY'N BERTHNASOL I'R DDAU GYNNIG:

### THEMA GWRTHWYNEBIAD 1

#### **Colli ysgol feithrin**

Cododd 81 o ymatebwyr bryderon y byddai ysgolion meithrin Bute Cottage a Cogan yn colli eu hunaniaethau annibynnol petaent yn cael eu huno gyda'r ysgolion cynradd. Mae risg nad yw'r anfanteision sy'n gysylltiedig â cholli penaeithaid ac aelodau staff penodedig wedi eu hystyried yn llawn.

#### **Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd**

Dros y blynyddoedd, mae'r Cyngor wedi bod yn symud tuag at fodel 3-11 ar gyfer addysg gynradd. Ystyrir hwn yn fodel addysg effeithlon, sy'n darparu darpariaeth gyfartal ar draws Bro Morgannwg. Er bod y Cyngor yn deall bod manteision yn gysylltiedig â'r model ysgol feithrin annibynnol, ni ellid darparu hyn ar draws Bro Morgannwg oherwydd y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â rheoli'r ddarpariaeth. O ran y model addysg, mae gwaith ymchwil amrywiol yn bodoli sy'n cefnogi modelau gwahanol. Fodd bynnag, gyda chymorth ariannol Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth y DU, ymchwiliodd yr astudiaethau hydredol, "*Effective Provision of Pre-school Education*" (EPPE) a "*Researching Effective Pedagogy in the Early Years*" (REPEY), 3,000 o blant 3+ oed mewn 141 o leoliadau cyn-ysgol yn Lloegr. Roedd yr astudiaeth fanwl hon yn cwmpasu sampl a chyfnod amser sylweddol, ac mae wedi cael ei defnyddio i lywio polisiâu addysgol yn y DU.

Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys mathau gwahanol o ddarpariaeth cyn-ysgol, gan gynnwys dosbarthiadau meithrin (darpariaeth o fewn Ysgolion Cynradd) ac ysgolion meithrin AALI (meithrinfeydd pwrpasol a reolir gan yr AALI). Nododd yr astudiaeth y deilliannau allweddol a gafodd y gwahanol leoliadau addysg cyn-ysgol ar ddeilliannau addysgol disgyblion dros eu cyfnod mewn addysg, gan nodi'r arferion a oedd o'r budd mwyaf i'r disgyblion. Mae'r gwaith ymchwil wedi dangos bod y lleoliadau cyn-ysgol mwyaf effeithiol (o ran deilliannau deallusol, cymdeithasol a thueddiadol) yn sicrhau cydbwysedd rhwng y cyfleoedd a ddarperir i blant elwa ar waith grŵp a gychwynnir gan yr athro, a darpariaeth gweithgareddau chwarae a ddewisir yn rhydd, ond sydd hefyd yn gallu bod yn addysgiadol. Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos cysylltiad rhwng gwahaniaethu cwricwlaid a pharu o ran her wybyddol, a 'meddwl ar y cyd parhaus'. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu po orau y mae lleoliad yn llwyddo o ran pob un o'r dimensiynau hyn o ymarfer pedagogaid, y mwyaf effeithiol ydyw. Mae'r lleoliadau mwyaf effeithiol hefyd yn mabwysiadu polisiâu cymdeithasol / ymddygiadol sy'n cynnwys staff wrth

gefnogi plant i resymoli a siarad. Nid yw'r lleoliadau a ddarperir ar lefel cyn-ysgol yn cael eu pennu gan y math o feithrinfa, ond yn hytrach gan yr arferion gwaith a'r cyfleoedd dysgu a ddarperir.

O ran tystiolaeth leol bod y model 3-11 yn gweithio'n dda ym Mro Morgannwg, mae'r holl ysgolion cynradd a reolir gan yr AALI yn yr Awdurdod yn cynnig darpariaeth feithrin, ac eithrio Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas. Mae mwyafrif adroddiadau Estyn ar gyfer yr ysgolion cynradd yn yr Awdurdod sy'n cynnig darpariaeth feithrin wedi cael sgôr 'da' neu 'ragorol', sy'n dangos nad yw'r model 3-11 wedi arwain at ddeilliannau dysgu gwaeth i ddisgyblion sy'n mynychu'r math hwn o ysgol. Yn ogystal, nododd Estyn mewn ymatebion i'r ymgynghoriad bod "y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o ran addysg, darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth".

Pe bai'r cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, byddai'r Cyrff Llywodraethu yn cael eu cefnogi i sicrhau bod y buddion hyn a'r arferion da o'r meithrinfeydd presennol yn trosglwyddo i'r ysgolion unedig. Byddai mesurau trawsnewid yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi uno'r ysgolion a lliniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â cholli pennaeth penodedig drwy sicrhau bod uwch dîm arwain gwydn a phrofiadol gydag arbenigeddau priodol yn cael eu hadlewyrchu ynddo. Byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gydag aelodau staff a llywodraethwyr i ddatblygu cynllun trawsnewid cynhwysfawr er mwyn cynnal yr arfer da sydd ar waith yn Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan.

Byddai uno'n galluogi'r cryfderau sy'n bresennol yn yr ysgolion meithrin a chynradd presennol i gael eu cyfuno i gyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel ar draws safleoedd ar wahân. Byddai'r ddarpariaeth feithrin yn parhau i gael ei gweithredu yn yr adeiladau presennol, a fyddai'n darparu lefel o wahanu oddi wrth weddill yr ysgol gynradd.

Byddai staff presennol yn trosglwyddo i'r ysgolion unedig, gan sicrhau parhad yn y ddarpariaeth. Byddai angen i gyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan adlewyrchu cynhwysiant y cyfnod meithrin. Byddai hyn yn cynnwys archwilio cyfleoedd i gynnig swyddi gwag i lywodraethwyr presennol Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan. Pe byddent yn cael eu cymeradwyo, byddai'r cynigion hyn yn sicrhau bod yr ysgolion yn gallu parhau i ddarparu addysg o ansawdd uchel. Mae'r cynigion yn hwyluso athroniaeth addysg gyson i blant am hyd at 9 mlynedd ddi-dor o addysg a, thrwy hynny, leihau'r posibilrwydd o amharu yn ystod y cyfnod pontio rhwng y dosbarth meithrin a'r ysgol gynradd.

Byddai un tîm arwain ac un corff llywodraethu ar draws pob ysgol yn arwain at ddileu dyblygu swyddogaethau rheoli a llywodraethu. Er enghraifft, mae'r ysgolion meithrin unigol yn cael eu harolygu ar hyn o bryd gan Estyn, ac mae'n rhaid iddynt

gyflwyno ffurflenni data ar wahân i'r Cyngor, i Gonsortiw m Canolbarth y De ac i Lywodraeth Cymru.

Byddai symleiddio swyddogaethau rheoli a gweinyddu, yn ogystal â'r gallu i drefnu contractau ar y cyd a chytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer adeiladau a gwasanaethau cymorth eraill, yn arwain at ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael yn fwy effeithiol. Byddai'r ysgolion unedig yn ei gwneud hi'n haws ymgysylltu â rhieni, yn enwedig lle mae ganddynt blant o oedran meithrin a chynradd. Dim ond un set o bolisiau ac un set o gyfathrebiadau fyddai angen i rieni ymgysylltu â nhw.

Yn ogystal, mae manteision yn gysylltiedig â darpariaeth feithrin fel rhan o ysgol 3-11. Mae hyn yn cynnwys un weledigaeth, strategaeth ac ethos ar draws pob cyfnod, a all gefnogi pontio ar draws cyfnodau addysg. Gall un ysgol 3-11 hefyd arwain at well cyfathrebu rhwng rhieni a staff gydag un pwynt cyswllt ym mhob cyfnod o addysg gynradd. Yn ogystal, gall un ysgol 3-11 arwain at well cyfathrebu rhwng rhieni a staff, gydag un pwynt cyswllt trwy gydol pob cyfnod addysg gynradd.

---

## THEMA GWRTHWYNEBIAD 2

### **Colli darpariaeth bwrpasol yr ysgolion meithrin**

Pwysleisiodd 103 o ymatebwyr y cymorth arbenigol mae'r ysgolion meithrin yn ei ddarparu i blant ifanc, ac y byddai hynny'n cael ei golli trwy'r uno. Roedd pryderon y byddai addysg yn cael ei ffurfioli yn rhy gynnar ac y byddai plant yn colli allan ar ddysgu trwy chwarae. Codwyd pryderon penodol am golli staff arbenigol ar lefel meithrin.

### **Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd**

Mae'r ddwy ysgol feithrin yn rhagorol o ran safonau a darpariaeth, ac nid mynd i'r afael â safonau addysg yw diben y cynigion. Byddai gan y cynnig hwn y fantais o fyfyrion ar rannu ac elwa ar yr arfer gorau yn y sectorau meithrin a chynradd. Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r Cyngor wedi bod yn symud tuag at fodel 3-11 o addysg gynradd, gan ddarparu cydraddoldeb yn y ddarpariaeth ar draws Bro Morgannwg. Mae hyn hefyd wedi bod yn wir ledled Cymru. Yn ôl StatsCymru, ar hyn o bryd mae 9 ysgol feithrin a gynhelir ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Yn 2005/2006 roedd 32 o ysgolion meithrin a gynhelir, sy'n cynrychioli gostyngiad o 72%.

Os caiff y cynigion eu cymeradwyo, byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda staff a llywodraethwyr i gefnogi'r trawsnewidiad i'r model newydd. Ffocws allweddol y trawsnewidiad hwn fyddai sicrhau bod yr ysgolion yn cynnal ac yn adeiladu ar arfer gorau, a bod disgyblion yn cael y ddarpariaeth orau o'r cyfnodau meithrin a chynradd.

Mae'n debygol y byddai newidiadau i ethos cyffredinol yr ysgolion yn ehangach fel rhan o'r trawsnewidiad i'r cwricwlwm newydd, ond byddai hwn yn gyfle i'r ysgolion meithrin a chynradd adeiladu ar ddulliau llwyddiannus a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r ddwy Ysgol Gynradd wedi datgan yn gyhoeddus, mewn ymateb i'r ymgynghoriad, y byddai natur arbenigol y ddarpariaeth feithrin yn cael ei chynnal a byddant yn mynd ati i geisio integreiddio hyn i gamau ehangach yr ysgol. Mae Cyrff Llywodraethu'r ddwy Ysgol Gynradd wedi datgan y byddent yn ceisio gwella datblygiad proffesiynol staff trwy gydweithio dyfnach a rhannu arbenigedd a gwybodaeth arbenigol am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn gwella'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar hyd yn oed ymhellach, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu i'r plant yn y cymunedau hyn.

Mae gan y mwyafrif o ysgolion cynradd Bro Morgannwg eu darpariaethau meithrin eu hunain. Nid yw deilliannau addysg feithrin na datblygiad personol wedi'u codi fel pryderon mewn unrhyw arolygiadau o ysgolion cynradd eraill. Mae yna hefyd lawer o ddarparwyr meithrin annibynnol ym Mro Morgannwg, pe bai rhieni'n dymuno i'w plant fynychu darpariaeth breifat heb fod mewn ysgol gynradd.

O ran gwarchod staff yn dilyn yr uno, ac yn amodol ar gymeradwyaeth, caiff staff nad ydynt yn addysgu eu gwarchod rhag diswyddiadau am 12 mis yn dilyn gweithredu'r newid, a chaiff staff addysgu eu gwarchod hyd at 3 blynedd, yn ddibynnol ar lefel. Byddai angen ymgynghori ar unrhyw newidiadau i raddfeydd y staff rhwng y pennaeth, y corff llywodraethu, yr aelodau staff a'r undebau perthnasol, cyn gweithredu'r newid. Dylid nodi na ellir gwarchod staff rhag diswyddo neu ddileu swydd am gyfnod amhenodol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn galw am unrhyw ddiswyddiadau neu ddileu swyddi. Mae'r penaethiaid presennol yn seiliedig ar drefniant dros dro a ddaw i ben yn dilyn gweithredu'r cynnig, gyda staff yn dychwelyd i'w safleoedd gwreiddiol. O ganlyniad, ystyrir na fyddai'r bwriad yn arwain at golli staff.

O ran yr angen i staff addysgu meithrin addysgu gwahanol grwpiau blwyddyn, nid dyma fwriad y cynnig. Bydd y cynnig yn cynnal yr elfennau meithrin ar y safleoedd ar wahân presennol, gan sicrhau y bydd angen staff meithrin ymroddedig yn y feithrinfa yn barhaus. Nodir mai cyfrifoldeb y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu fydd rheoli staff, ond nod y cynnig yw cynnal arferion gorau o fewn yr ysgolion, gan ddefnyddio arbenigedd yr aelodau staff presennol ar y camau addysg perthnasol. Bydd y model safleoedd ar wahân, sy'n cael ei gynnig, yn caniatáu rhywfaint o annibyniaeth oddi wrth yr ysgol gynradd, yn rhinwedd ei lleoliad, wrth gryfhau'r trefniadau pontio rhwng y cyfnod meithrin a'r ysgol gynradd.

---

## THEMA GWRTHWYNEBIAD 3

### **Mae'r arbedion costau yn annigonol i gyfiawnhau'r cynnig**

Roedd 19 o ymatebwyr yn pryderu mai torri costau yw prif ysgogiad y cynigion, ac y byddai'n arwain at brinder staff neu at yr ysgol feithrin yn colli allan ar gymorth ariannol.

### **Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd**

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'r rhesymeg y tu ôl i'r cynigion ac yn nodi nifer o yrwyr ar gyfer y cynnig, gan gynnwys arbedion cost posibl. Fodd bynnag, y prif yrrwr ar gyfer y cynigion yw sicrhau cydraddoldeb a chysondeb ar draws y ddarpariaeth gynradd ym Mro Morgannwg, gan hybu'r symudiad tuag at y model cynradd 3-11.

Mae gan y model hwn nifer o fanteision, gan gynnwys sicrhau cysondeb a chynnydd o ran addysg plant o dair oed ymlaen. Byddai hynny'n sicrhau bod dull cyson o gynllunio a chyflwyno'r cyfnod sylfaen (meithrin i flwyddyn dau) yn bodoli, ac yn lleihau'r posibilrwydd o amharu yn ystod y cyfnod pontio rhwng y dosbarth meithrin a'r ysgol gynradd.

Byddai cyflwyno polisïau, strategaethau ac addysgeg gyson ar draws pob oedran yn arwain at ddisgwyliadau clir ac ethos a rennir y mae plant, rhieni a gofalwyr yn ei ddeall ym mhob cyfnod o addysg gynradd. Yn ogystal, byddai'r cynigion yn cefnogi dull cydgysylltiedig o gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion agored i niwed ar draws y cyfnod sylfaen.

Byddai un tîm arwain a chorff llywodraethu ar draws pob ysgol yn arwain at waredu dyblygu swyddogaethau rheolaeth a llywodraethu. Er enghraifft, mae'r ysgolion meithrin unigol yn cael eu harolygu ar hyn o bryd gan Estyn, ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno ffurflenni data ar wahân i'r Cyngor, Consortiwm Canolbarth y De a Llywodraeth Cymru.

Dim ond un set o bolisïau ac un set o gyfathrebiadau fyddai angen i rieni ymgysylltu â nhw.

Nid torri costau yn unig sy'n ysgogi'r cynigion. Fodd bynnag, nodir o fewn y ddogfen ymgynghori y byddai'r cynigion yn arwain at arbediad o £140,000. Mae pob ysgol ym Mro Morgannwg yn cael cyllideb ddirprwyedig a bennir gan y fformiwla ariannu ysgolion. Rhennir y fformiwla yn ddwy adran ar wahân: cyllid a arweinir gan ddisgyblion a chyfundaliadau (neu orbenion). Mae cyllid a arweinir gan ddisgyblion yn dyrannu swm penodol fesul disgybl ar gofrestr ysgol sy'n cael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob ysgol. Mae cyfundaliadau neu daliadau gorbenion yn gostau gosodedig a all amrywio ar draws ysgolion, mae hyn yn cynnwys dyraniadau i ariannu cyflog y pennaeth ac atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw. Byddai'r cynigion hyn yn arwain at leihau costau cyfundaliad gan na fyddai angen pennaeth ar y cyfnod meithrin mwyach. Byddai'r arbediad hwn yn cael ei ail-fuddsoddi yn y

fformiwla ariannu gyffredinol, a fyddai'n arwain at ddosbarthiad tecach o gyllid ysgolion.

Yn ogystal â'r gallu i drefnu contractau ar y cyd a chytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer adeiladau a gwasanaethau cymorth eraill, gallai symleiddio swyddogaethau rheoli a gweinyddu arwain at ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael yn fwy effeithiol.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan ill dau yn derbyn cyllideb unigol, gan gynnwys dyraniadau ar gyfer y cyfnod meithrin. Gan fod y rhan fwyaf o gyllid ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion ar y gofrestr, byddai'r cynigion yn gwella'r sefyllfa gyllidebol gyffredinol ar gyfer Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan. Byddai cyllidebau yn cael eu rhannu ar draws y cyfnodau meithrin a chynradd er mwyn sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgolion yn cael mynediad i addysg ac adnoddau o safon uchel.

O ganlyniad, o safbwynt addysgol y Fro gyfan, byddai mwy o ddisgyblion yn elwa ar ddosbarthiad tecach o gyllid.

---

#### THEMA GWRTHWYNEBIAD 4

### **Mae'r berthynas bresennol rhwng ysgolion yn briodol ac ni fyddent yn elwa o newid strwythur**

Roedd 2 ymatebydd o'r farn fod y berthynas rhwng yr ysgolion cynradd a'r ysgolion meithrin eisoes yn ddigonol ac felly ni fyddai angen eu huno i sicrhau gwelliant yn y maes hwn.

### **Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd**

Er bod y Cyngor yn cytuno bod perthynas waith dda rhwng yr ysgolion cynradd a'r ysgolion meithrin, byddai cyfleoedd o hyd ar gyfer mwy o gydweithio a symleiddio'r cyfathrebu rhwng yr ysgolion a chyda rhieni. Bydd hyn yn helpu i wella cyd-ddealltwriaeth rhwng staff ysgolion cynradd a staff meithrin ar anghenion disgyblion a sut i ddatblygu dysgu o ansawdd uchel yn ystod y cyfnodau addysgol trosiannol o'r meithrin, y derbyn a blwyddyn 1 trwy gydweithio gwell oherwydd strwythurau rheoli trosfwaol. Gall hyn fod ar ffurf rhannu arbenigedd proffesiynol rhwng y gwahanol grwpiau blwyddyn er mwyn sicrhau parhad drwy gydol y cyfnodau meithrin a chynradd. Mae hefyd yn lleihau nifer y cyfnodau pontio ar gyfer disgyblion ysgol gynradd, sy'n helpu i leihau'r amharu ar ddisgyblion wrth iddynt symud o'r dosbarth meithrin i'r ysgol gynradd, gan sicrhau bod disgyblion yn barod ar gyfer symud i'r ysgol gynradd. Gellir cyflawni hyn trwy berthynas gryfach rhwng staff derbyn a blwyddyn 1 sy'n mynychu dosbarthiadau diwedd blwyddyn yn y cyfnod meithrin i sicrhau bod disgyblion yn gyfarwydd ag athrawon newydd. Dylid nodi y byddai trefniadau posibl yn cael eu pennu gan y Corff Llywodraethu ar gyfer yr ysgol, ond mae'r nod o wella arbenigedd proffesiynol a phrofiad disgyblion wedi'i amlygu yn ymatebion cyrff llywodraethu presennol yr ysgolion cynradd i'r ymgynghoriad. Yn ogystal, oherwydd y cynnydd yn niferoedd disgyblion yn yr ysgol

gynradd o ganlyniad i ymgorffori'r elfen feithrin yn yr ysgol, bydd hyn yn cynyddu maint y corff llywodraethu yn unol â hynny, gyda swyddi newydd yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer corff llywodraethu presennol yr ysgol feithrin. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cynrychiolaeth gyfrannol o fewn y corff llywodraethu newydd, yn seiliedig ar niferoedd disgyblion rhwng yr elfennau cynradd a meithrin.

Pe byddent yn cael eu cymeradwyo, byddai'r cynigion hyn yn sicrhau bod yr ysgolion yn gallu parhau i ddarparu addysg o ansawdd uchel. Mae'r cynigion yn hwyluso athroniaeth addysg gyson i blant am hyd at 9 mlynedd ddi-dor o addysg, a thrwy hynny leihau'r posibilrwydd o darfu yn ystod y cyfnod pontio o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd. Mae pontio rhwng y cyfnodau dysgu gwahanol yn cynyddu'r tebygolrwydd o effeithiau andwyol ar ddeilliannau addysgol disgyblion. Un ffordd glir o leihau nifer y cyfnodau pontio y mae plant yn eu profi cyn pump oed yw cael gwared ar y rhwystr rhwng y cyfnod meithrin a'r ysgol gynradd. Mae hefyd yn rhoi mwy o gyfle i staff meithrin ymwneud ag addysg barhaus disgyblion os ydynt wedi symud trwy gyfnodau dysgu derbyn a blwyddyn 1, gan sicrhau ei bod yn haws cynnal parhad addysg rhwng y gwahanol grwpiau blwyddyn.

Byddai'r ysgolion unedig yn ei gwneud hi'n haws ymgysylltu â rhieni, yn enwedig lle mae ganddynt blant o oedran meithrin a chynradd. Dim ond un set o bolisïau ac un set o gyfathrebiadau fyddai angen i rieni ymgysylltu â nhw. Byddai hefyd mwy o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff drwy fod yn rhan o ysgol gynradd sy'n addysgu ar draws pob cyfnod o addysg gynradd. Byddai'r uno arfaethedig yn hwyluso rhannu arferion addysgeg ar draws staff ym mhob grŵp oedran gan sicrhau cysondeb.

---

## THEMA GWRTHWYNEBIAD 5

### **Lleoliad anaddas i ddisgyblion meithrin**

Nododd 10 ymatebydd bryderon y byddai disgyblion meithrin yn cael eu gorlethu mewn lleoliad sydd â disgyblion cynradd ac sy'n rhan o ysgol fwy.

### **Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd**

Bydd y ddwy Ysgol Feithrin yn aros ar eu safleoedd presennol ac ni fyddent yn cael eu hadleoli. Yna, byddai'r safleoedd meithrin yn cael eu rheoli fel rhan o'r Ysgolion Cynradd, gan weithredu fel dosbarthiadau meithrin oddi ar y safle i'r ddarpariaeth ysgol gynradd, gyda chysylltiadau cryfach â'r ysgol gynradd berthnasol oherwydd newidiadau yn y strwythur rheoli a gwelliannau i drefniadau pontio.

Ni fyddai unrhyw gynnydd yng nghyfanswm y lleoedd sydd ar gael o ganlyniad i'r cynigion hyn (byddai 4 yn llai o leoedd meithrin rhan amser ar gael yn Cogan) a byddai cyfnod meithrin yr ysgolion yn aros ar eu safleoedd presennol.

O ganlyniad, ni fyddai'r profiad bob dydd o fewn yr ysgolion yn newid ar gyfer disgyblion meithrin na chynradd gan na fydd y lleoliadau ffisegol yn newid o



ganlyniad i'r cynigion hyn. Un o brif fanteision yr uno byddai pontio gwell. Gellid cyflwyno disgyblion i'r cyfnod cynradd yn anffurfiol ac yn raddol trwy gydol y flwyddyn, mewn trafodaeth gyda rhieni / gwarcheidwaid, gan gymryd i ystyriaeth yr oedran statudol ar gyfer addysg orfodol, a fyddai'n lleihau effaith y trosglwyddiad ym mis Medi.

---

## THEMA GWRTHWYNEBIAD 6

### **Mae'r mwyafrif o ymgynghoreion yn gwrthwynebu'r cynigion**

Cododd 31 o ymatebwyr wrthwynebiad yn seiliedig ar ganlyniad yr ymarfer ymgynghori, lle gwrthwynebodd y mwyafrif o gynrychiolwyr y cynigion. Nododd yr ymatebwyr y dylai'r Cyngor bennu'r cynnig yn seiliedig ar nifer y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd.

### **Ymateb y Cyngor**

Cydnabyddir bod cyfran uchel o'r ymgynghoreion o'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd rhwng 20 Medi 2022 a 5 Tachwedd 2022 wedi gwrthwynebu'r cynnig. Fodd bynnag, nid yw'r ymgynghoriad statudol yn refferendwm sy'n galw ar benderfynwyr i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar y gefnogaeth fwyaf. Mae'r broses ymgynghori yn gyfle i'r penderfynwyr wneud eu cynigion yn hysbys i'r cyhoedd a gwahodd sylwadau ar y cynigion er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n gwneud y penderfyniadau yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae hynny yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Cododd y broses ymgynghori nifer o themâu yr oedd ymatebwyr yn pryderu yn eu cylch, a rhoddodd y Cyngor ymateb manwl iddynt fel rhan o'r Adroddiad Ymateb i'r Ymgynghoriad. Yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad Ymateb i'r Ymgynghoriad, penderfynodd y Cabinet, sef y penderfynwr ar gyfer y cynnig hwn, symud ymlaen â'r cynnig i'r cam nesaf a chyhoeddwyd Hysbysiad Statudol. Arweiniodd y cyfnod gwrthwynebu ar gyfer yr hysbysiad statudol at 111 o wrthwynebwyr i'r cynnig, sy'n ostyngiad o'r 238 o ymatebwyr (169 o wrthwynebiadau i Gynnig 1 a 73 o wrthwynebiadau i Gynnig 2) a dderbyniwyd fel rhan o'r broses ymgynghori.

Cydnabyddir bod nifer uchel o wrthwynebiadau i'r cynnig o hyd, ond mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny er mwyn caniatáu i Gabinet y Cyngor wneud penderfyniad gwybodus ar symud y cynnig yn ei flaen, neu ei dynnu'n ôl. Er bod y gwrthwynebiadau wedi'u crynhoi at ddibenion yr adroddiad hwn, darparwyd gwrthwynebiadau llawn i'r Cynghorwyr cyn cyfarfod y Cabinet i sicrhau bod gwrthwynebiadau wedi'u hystyried yn llawn.

---

## THEMA GWRTHWYNEBIAD 7

### **Does dim sail resymegol glir i'r cynnig**



Nododd 14 ymatebydd bryderon nad oedd sail resymegol glir i'r cynigion a / neu symud yr ysgolion meithrin.

### **Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd**

Mae'r rhesymeg dros y cynigion wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Fodd bynnag, y prif yrrwr ar gyfer y cynnig yw sicrhau cydraddoldeb a chysondeb ar draws y ddarpariaeth gynradd ym Mro Morgannwg, gan hybu'r symudiad tuag at y model cynradd 3-11. O ran cefndir, yn 2021/2022, derbyniodd Ysgol Feithrin Bute Cottage gyllideb o £286,292, sy'n cyfateb i £6,983 fesul disgybl (cyfwerth ag amser llawn). Derbyniodd Ysgol Feithrin Cogan gyllideb o £280,829, sy'n cyfateb i £7,590 fesul disgybl (cyfwerth ag amser llawn). Mae swm y cyllid fesul disgybl yn sylweddol uwch na'r cyllid cyfartalog fesul disgybl ar draws yr holl ysgolion cynradd, sef £3,804 yn 2021/2022. Mae cyllid fesul disgybl yn gyffredinol uwch mewn ysgolion meithrin annibynnol oherwydd costau staffio a rhedeg uwch. Fodd bynnag, nid yw cyllideb uwch yn cyfateb i ddeilliannau addysgol gwell, fel y gwelir yn y cynnig addysgol presennol ledled Bro Morgannwg sy'n cael graddau 'da' neu 'ragorol' gan Estyn yn bennaf.

Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yw'r unig ddwy ysgol feithrin annibynnol yn y Fro; hynny yw, endidau ar wahân gyda'u cyrff llywodraethu eu hunain a chyllideb ddirprwyedig. Mae'r ddwy ysgol feithrin yn cael eu rheoli ar hyn o bryd gan bennaeth a chorff llywodraethu, ac yn derbyn cyllideb ar wahân gan y Cyngor. Daeth swydd y pennaeth yn Ysgol Feithrin Bute Cottage yn wag ar ddiwedd mis Awst 2019, ac mae'n cael ei llenwi ar hyn o bryd drwy drefniant dros dro. Daeth swydd y pennaeth yn Ysgol Feithrin Cogan yn wag ar ddiwedd mis Awst 2021, a bydd yn cael ei llenwi am flwyddyn trwy drefniant dros dro gydag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrews Major. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Cyngor ad-drefnu darpariaeth feithrin wrth osgoi diswyddiadau gorfodol. Byddai'r cynnig yn arbed tua £140,000 y flwyddyn oherwydd dileu'r trefniant dros dro yn yr ysgolion meithrin, sy'n ymwneud â chost swydd y pennaeth (£70,000 fesul ysgol feithrin).

Ystyrir bod y model 3-11 yn datblygu cysondeb a chynnydd o ran dysgu plant o dair oed ymlaen yn well. Byddai hynny'n sicrhau bod dull cyson o gynllunio a chyflwyno'r cyfnod sylfaen (meithrin i flwyddyn dau) yn bodoli, ac yn lleihau'r posibilrwydd o amharu yn ystod y cyfnod pontio rhwng y dosbarth meithrin a'r ysgol gynradd. Byddai cyflwyno polisiau, strategaethau ac addysgeg gyson ar draws pob oedran yn arwain at ddisgwyliadau clir ac ethos a rennir y mae plant, rhieni a gofalwyr yn ei ddeall ym mhob cyfnod o addysg gynradd. Yn ogystal, byddai'r cynnig yn cefnogi dull cydgysylltiedig o gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion agored i niwed ar draws y cyfnod sylfaen. Byddai un tîm arwain a chorff llywodraethu ar draws pob ysgol yn arwain at waredu dyblygu swyddogaethau rheolaeth a llywodraethu. Er enghraifft, mae'r ysgolion meithrin unigol yn cael eu harolygu ar hyn o bryd gan Estyn, ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno ffurflenni data ar wahân i'r Cyngor, Consortïwm Canolbarth y De a Llywodraeth Cymru.

Byddai symleiddio swyddogaethau rheoli a gweinyddu, yn ogystal â'r gallu i drefnu contractau ar y cyd a chytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer adeiladau a gwasanaethau cymorth eraill, yn arwain at ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael yn fwy effeithiol. Byddai'r ysgolion unedig yn ei gwneud hi'n haws ymgysylltu â rhieni, yn enwedig lle mae ganddynt blant o oedran meithrin a chynradd. Dim ond un set o bolisïau ac un set o gyfathrebiadau fyddai angen i rieni ymgysylltu â nhw.

---

## THEMA GWRTHWYNEBIAD 8

### **Adnoddau annigonol i gynnal ansawdd yr addysg**

Gwrthwynebodd 71 o ymatebwyr i'r cynnig ar y sail na fyddai digon o gyllid i barhau i ddarparu lefel uchel o ddeilliannau addysgol ar lefel feithrin. Nododd ymatebwyr bod cyllid meithrin ymroddedig yn fwy buddiol i ddeilliannau addysgol meithrin o gymharu â chyllid trosfwaol ar gyfer model ysgol unedig.

### **Ymateb y Cyngor**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan ill dau yn derbyn cyllideb unigol, gan gynnwys dyraniadau ar gyfer y cyfnod meithrin. Gan fod y rhan fwyaf o gyllid ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion ar y gofrestr, byddai'r cynigion yn gwella'r sefyllfa gyllidebol gyffredinol ar gyfer Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan. Ysgol Gynradd Evenlode sy'n cael y lefel isaf o gyllid fesul disgybl ar draws holl ysgolion y Fro ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg darpariaeth feithrin. Byddai'r cynigion yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau ariannol ar draws pob ysgol. Yn gyffredinol, mae ysgolion mwy hefyd yn gallu sicrhau gwell gwerth am arian trwy arbedion maint.

Yn ogystal, byddai arbedion cost yn gysylltiedig â symleiddio swyddogaethau rheoli a gweinyddu, yn ogystal â'r gallu i drefnu contractau ar y cyd a chytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer adeiladau a gwasanaethau cymorth eraill. Byddai hyn yn arwain at ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael yn fwy effeithiol ac o bosibl yn lleihau costau yn gyffredinol. Yn ogystal, gan y bydd y safleoedd ysgolion meithrin a chynradd ar wahân, byddai costau gweinyddol a chynnal a chadw yn cael eu cynnwys yn y fformiwla ariannu, gan sicrhau bod cyllideb ddigonol i gynnal yr ysgolion ar draws y ddau safle.

Er y cydnabyddir bod y ddwy feithrinfa annibynnol yn rhagorol o ran safonau a darpariaeth, nid oes tystiolaeth i awgrymu bod plant sy'n mynychu meithrinfeydd annibynnol yn cyflawni canlyniadau gwell o ran y gwahanol bwytiau asesu yn ystod eu haddysg ysgol o gymharu â phlant sy'n mynychu meithrinfeydd mewn ysgolion cynradd.

---

## THEMA GWRTHWYNEBIAD 9

### **Mae'r broses ymgynghori yn annigonol**

Gwrthwynebodd 39 o ymatebwyr i'r ffordd y rheolwyd y broses statudol. Nododd yr ymatebwyr ei bod yn anodd dod o hyd i wybodaeth a bod oedi yn y broses heb ei hysbysebu'n ddigonol i bartïon â diddordeb.

### **Ymateb y Cyngor**

Mae'r broses yn amodol ar y gofynion statudol a nodir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r canllawiau a ddarperir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Rhaid i'r Cyngor ymgymryd â'r broses yn unol â'r dogfennau hyn i sicrhau ei bod yn ddilys.

Roedd y cynnig yn destun ymgynghoriad yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) gan redeg rhwng 20 Medi 2021 a 5 Tachwedd 2021. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ymatebodd y Cyngor i'r sylwadau a dderbyniwyd trwy'r Adroddiad Ymgynghori. Roedd yr Adroddiad Ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, yn darparu ymateb i'r pryderon hyn, ac yn adolygu'r cynnig i bennu'r effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg, y gymuned leol a threfniadau teithio.

Yna, cyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori i Gabinet y Cyngor ar 10 Ionawr 2022, gydag argymhelliad i symud i gam Hysbysiad Statudol y cynnig. Gellir gweld copi o Adroddiad y Cabinet fan hyn:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/\\_Committee%20Reports/Cabinet/2022/22-01-10/Update-on-Nursery-Provision-Penarth-Consultation.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Cabinet/2022/22-01-10/Update-on-Nursery-Provision-Penarth-Consultation.pdf)

Ar ôl i Adroddiad y Cabinet a'i argymhellion gael eu hystyried, penderfynodd y Cabinet gyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol (Cofnod rhif C786, gweler y ddolen):

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/\\_Committee%20Reports/Cabinet/2022/22-01-10/Minutes.pdf](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Cabinet/2022/22-01-10/Minutes.pdf)

Y bwriad oedd cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol ar 25 Ionawr 2022. Roedd hyn yn seiliedig ar gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori yn ffurfiol ar 11 Ionawr 2022 a chaniatáu'r pythefnos gofynnol i randdeiliaid ystyried y ddogfen, fel sy'n ofynnol yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Fodd bynnag, ers penderfyniad y Cabinet i gyhoeddi'r Hysbysiad Statudol ar 10 Ionawr 2022, galwodd y Cynghorwyr y penderfyniad i mewn i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant. Roedd hyn yn effeithio ar yr amserlenni a ragwelwyd ar gyfer y cynnig.

Ni ellid cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol tan ganlyniad y Pwyllgor Craffu. Gall y Pwyllgor Craffu wneud un o dri pheth: gallai dderbyn yr adroddiad fel y'i drafftwyd;

gallai gyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach gydag argymhellion; neu, mewn rhai amgylchiadau, gallai gyfeirio'r mater at y cyngor llawn.

Mae nifer o oblygiadau i'r cynnig sydd allan o reolaeth swyddogion y Cyngor sy'n rhedeg y broses statudol. Mae hyn yn peri anhawster o ran rhoi sicrwydd i randdeiliaid ynghylch pryd y bydd gwahanol gamau'r broses yn dechrau. Fodd bynnag, darparwyd manylion cyswllt drwy gydol y broses i sicrhau y gallai partïon pryderus godi cwestiynau i swyddogion am y broses a'r amserlenni presennol.

Cysylltwyd â'r holl randdeiliaid statudol perthnasol fel rhan o'r cynnig, fel rhan o'r ymgynghoriad statudol a'r cyfnod gwrthwynebu. Yn ogystal, cysylltwyd â'r holl ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar ôl i'r Hysbysiad Statudol gael ei gyhoeddi, gan eu gwneud yn ymwybodol o'r cyfnod gwrthwynebu. Roedd gwybodaeth yn ymwneud â chynigion ar gael ar dudalen we'r Cyngor, sydd i'w gweld fan hyn:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/Consultations/Nursery-Provision-Penarth-Consultation.aspx>

Diweddarwyd y dudalen we i adlewyrchu gwahanol gamau'r broses statudol. Yn ogystal, gellir gweld yr holl gyfarfodydd gwneud penderfyniadau a gynhaliwyd gan y Cyngor ar-lein, trwy gofnodion megis cyfarfodydd perthnasol y Cabinet ([https://www.youtube.com/playlist?list=PLzt4i14pgqIEOa\\_6uH4po68\\_H6wGjYiaP](https://www.youtube.com/playlist?list=PLzt4i14pgqIEOa_6uH4po68_H6wGjYiaP)) a Chyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant (<https://www.youtube.com/playlist?list=PLzt4i14pgqIEhf6Nqf58QWzDmFZIS6XJQ>) lle ystyriwyd y cynigion gan aelodau'r Cabinet a'r Pwyllgor. Roedd y cyfarfodydd hefyd ar gael i'w gwyllo'n fyw er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn cael gwybod am y broses. Yn ystod cyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant, cofrestrodd 6 aelod o'r cyhoedd i leisio'u pryderon, ac fe'u hystyriwyd gan aelodau'r Pwyllgor a'u hadrodd yn ôl i'r Cabinet.

O ganlyniad, ystyrir bod sylw dyledus wedi'i roi i'r holl ymatebion i'r broses ymgynghori gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

### 2.3. MATERION A GODWYD MEWN PERTHYNAS Â CHYNNIG 1 (UNO YSGOL FEITHRIN BUTE COTTAGE AC YSGOL GYNRADD EVENLODE):

---

THEMA GWRTHWYNEBIAD 10

#### **Colli gofod awyr agored**

Cododd 10 ymatebydd bryderon am golli darpariaeth awyr agored ar y safleoedd, petai'r ysgolion meithrin yn newid lleoliad. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf ag Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode.

#### **Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd**

Ni fyddai'r un o'r meithrinfeydd yr effeithir arnynt yn symud safle o ganlyniad i'r cynigion hyn. O ganlyniad, byddai'r gofod awyr agored sydd ar gael yn holl safleoedd yr ysgolion sy'n destun y cynnig hwn yn aros yr un fath.

---

#### THEMA GWRTHWYNEBIAD 11

##### **Cynnydd o ran traffig ysgol**

Cododd 2 ymatebydd bryderon yn ymwneud â'r posibilrwydd o gynnydd mewn traffig ac anawsterau o ran trefniadau parcio ar safleoedd presennol yr ysgolion o ganlyniad i'r cynnig.

##### **Ymateb y Cyngor**

Ni fyddai'r un o'r meithrinfeydd yr effeithir arnynt yn symud safle o ganlyniad i'r cynigion hyn. Yn ogystal, ni fyddai maint yr ysgolion meithrin a chynradd ar bob safle yn cynyddu o ran capasiti (byddai Ysgol Feithrin Cogan yn lleihau o 2 le). O ganlyniad, ystyrir na fyddai hyn yn arwain at gynnydd sylweddol mewn symudiadau traffig ysgol.

---

#### THEMA GWRTHWYNEBIAD 12

##### **Newidiadau i ddalgylchoedd yr ysgolion a fyddai'n cael effaith andwyol ar breswylwyr lleol**

Cododd 1 ymatebydd wrthwynebiad ynghylch dalgylchoedd yr ysgolion meithrin. Roedd y gwrthwynebiad o'r farn y byddai dalgylch mwy yn arwain at newidiadau o ran traffig ysgol yn ymweld â'r safle.

##### **Ymateb y Cyngor**

Byddai'r dalgylchoedd ar gyfer y model 3-11 yn adlewyrchu'r dalgylchoedd presennol ar gyfer Ysgol Gynradd Evenlode (ar gyfer Ysgol Feithrin Bute Cottage) ac Ysgol Gynradd Cogan (ar gyfer Ysgol Feithrin Cogan).

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Feithrin Bute Cottage yn blaenoriaethu disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Evenlode, ac mae Ysgol Feithrin Cogan yn blaenoriaethu disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Cogan. O ganlyniad, ar sail trefniadau presennol yr ysgolion meithrin, ni fyddai eu cynnwys o fewn dalgylchoedd yr ysgolion cynradd presennol yn cael effaith sylweddol ar niferoedd disgyblion.

---

#### THEMA GWRTHWYNEBIAD 13

##### **Bydd y cynnig yn arwain at safle ysgol ar y cyd yn yr hirdymor**

Gwrthwynebodd 8 ymatebydd i'r cynnig ar sail y posibilrwydd y gallai'r cynnig arwain at safle ysgol ar y cyd yn yr hirdymor. Nododd y gwrthwynebiadau fod datganiadau gwrthgyferbyniol yn y deunydd ymgynghori ar y posibilrwydd o symud safle, a oedd yn achosi dryswch.

## Ymateb y Cyngor

Nid oes unrhyw gynigion wedi'u cyflwyno i adleoli'r naill ysgol feithrin na'r llall. Felly, nid oes unrhyw resymeg wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori gan fod hyn yn ymwneud â'r cynigion i uno'r ysgolion cynradd a meithrin a chadw'r ysgolion meithrin ar eu safleoedd presennol.

Ni all y Cyngor roi sicrwydd na fyddai cynnig yn y dyfodol yn ceisio adolygu'r ddarpariaeth feithrin ym Mhenarth. Fodd bynnag, byddai unrhyw gynlluniau i symud yr ysgolion meithrin o'u safleoedd presennol yn destun adolygiad o ymarferoldeb cynnig o'r fath, a byddai ymgynghoriad ar wahân yn dilyn os ystyrir bod hyn yn briodol fel rhan o'r broses gynllunio. Fodd bynnag, dylid nodi pe bai'r ysgolion meithrin yn y dyfodol yn cael eu symud i leoliad gwahanol o fewn milltir i'r lleoliad presennol, ni fyddai hyn yn ymgysylltu ag Atodlen 2 o Ddeddf 2013 mewn perthynas â newid rheoleiddiedig sy'n ymwneud â throsglwyddo unrhyw ysgol i safle newydd (sy'n berthnasol i feithrinfa a gynhelir). Mae hyn yn golygu na fyddai'n ofynnol cynnal ymgynghoriad addysg statudol ar yr agwedd hon ar gynnig yn y dyfodol os yw'n digwydd. Fodd bynnag, byddai ymgynghoriadau ar wahân yn ymwneud â'r broses gynllunio a fyddai'n ystyried yr ystyriaethau cynllunio perthnasol ar gyfer datblygiad newydd megis pwysau cynyddol ar draffig a digon o le i wasanaethu'r datblygiad arfaethedig.

Mae'r Cyngor wedi dyrannu £1.362m fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu i gefnogi ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth. Fodd bynnag, penderfynodd Bwrdd Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor na fyddai'r prosiect yn ymarferol. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn ceisio cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i ddileu'r prosiect i ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth o'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu gyfredol, i ganiatáu i gyllid gael ei wyro at brosiectau parhaus eraill sy'n rhan o'r rhaglen.

### 2.4. GWRTHWYNEBIADAU A GODWYD MEWN PERTHYNAS Â CHYNNIG 2 (UNO YSGOL FEITHRIN COGAN AC YSGOL GYNRADD COGAN):

---

#### THEMA GWRTHWYNEBIAD 14

#### **Nid yw'r trefniadau pontio rhwng yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd yn briodol**

Gwrthwynebodd 11 o ymatebwyr oherwydd na fyddai'r uno yn arwain at drefniadau pontio gwell. Nododd y gwrthwynebiadau nad oedd digon o leoedd yn Ysgol Gynradd Cogan ar gyfer nifer y lleoedd disgyblion yn y feithrinfa.

#### **Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd**

Y Cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd. Nid oes gan yr ysgol feithrin ddalgylch ond mae'n blaenoriaethu lleoedd yn seiliedig ar ddalgylch Ysgol Gynradd Cogan. Mae'r broses dderbyn yn rhoi'r hawl i rieni arfer

dewis rhieiniol am ysgol ac, o ganlyniad, gall disgyblion fynychu'r ysgol o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol. Mae hyn yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a dderbynnir a'r meini prawf derbyn perthnasol. O ganlyniad, mae disgyblion o Gaerdydd yn mynychu'r ysgol o ganlyniad i rieni yn arfer dewis rhieiniol dros yr ysgol. Fodd bynnag, dylid nodi mai cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw darparu lleoedd i ddisgyblion o fewn ei ardal, ac eithrio'r rheini sy'n teithio o ardaloedd Awdurdod eraill.

Capasiti a nifer derbyn yr ysgol yw'r ffactorau sy'n cyfyngu ar nifer y plant sy'n cael eu derbyn i'r ysgol. Ni fyddai'r awdurdod lleol fel arfer yn ystyried derbyn y tu hwnt i nifer derbyn yr ysgol a chapasiti'r ysgol yn gyffredinol. Lle mae mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael yn y dosbarth derbyn, byddai lleoedd yn cael eu dyrannu trwy gymhwysu meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor, sy'n blaenoriaethu'r rheini sy'n byw yn y dalgylch, yn yr achos hwn byddai hyn yn ymwneud â dalgylch Ysgol Gynradd Cogan. Byddai derbyniadau i'r dosbarth derbyn yn unol â threfniadau derbyn cyhoeddedig y Cyngor (<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/admissions/School-Admissions.aspx>).

Pe bai'r ysgol yn cael ei gordanysgrifio, byddai lleoedd yn cael eu dyrannu hyd at nifer derbyn yr ysgol drwy gymhwysu meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor yn nhrefn blaenoriaeth. At hynny, yn seiliedig ar ysgolion eraill ym Mro Morgannwg, nid yw hi bob amser yn wir fod pob rhiant dosbarth meithrin yn gwneud cais i fynychu dosbarth derbyn y brif ysgol. Gall nifer o ddisgyblion sy'n mynychu ysgol feithrin fynychu ysgolion eraill yn y cyffiniau, yn dibynnu ar ddewis y rhieni. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai mwyafrif y disgyblion meithrin yn trosglwyddo i'r cyfnod ysgol gynradd. Adlewyrchir hynny yn y data diweddaraf ar gyfer yr ysgolion sy'n dangos, dros y 3 blynedd diwethaf, bod mwyafrif y disgyblion meithrin wedi trosglwyddo i Ysgol Gynradd Cogan ac wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn fel y dangosir yn y tabl isod:

	<b>Medi 2019</b>	<b>Medi 2020</b>	<b>Medi 2021</b>
Disgyblion Ysgol Feithrin Cogan i Ysgol Gynradd Cogan	23 (47.91%)	25 (52.08%)	25 (62.5%)

Ystyrir bod y rhaniad rhwng ysgolion cynradd eraill yn gymharol isel ac mae'n adlewyrchu blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, ystyrir y byddai'r cynnig o fudd i drefniadau trosiannol y disgyblion meithrin sy'n mynychu Ysgol Gynradd Cogan.



## **Mae Ysgol Feithrin Cogan yn derbyn disgyblion o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Gynradd Cogan**

Cododd 10 ymatebydd bryderon bod disgyblion meithrin o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Gynradd Cogan yn mynychu Ysgol Feithrin Cogan. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod hynny'n arwain at ddisgyblion meithrin yn manteisio ar ddarpariaeth meithrin Cogan, cyn mynychu ysgolion cynradd amgen.

### **Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd**

Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu derbyn disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Cogan. Byddai Cynnig 2 yn arwain at 96 o leoedd meithrin rhan amser cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Cogan. Mae hynny gyfwerth â 4 yn llai o leoedd rhan amser nag sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Feithrin Cogan. Fodd bynnag, mae hyn yn ddigon i fodloni'r galw yn yr ardal leol (gweler tabl 2 yn adran derbyniadau'r ddogfen ymgynghori). Heblaw am y mân newid hwn, ni fyddai'r trefniadau derbyn a'r meini prawf gordanysgrifio, sydd ar waith ar gyfer derbyniadau meithrin a chynradd, yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn. Er y nodir nad yw pob disgybl meithrin yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Gynradd Cogan, yn 2021 aeth mwyafrif y disgyblion meithrin (62.5% neu 25 o ddisgyblion) ymlaen i fynychu Ysgol Gynradd Cogan. Mae hynny'n adlewyrchu tuedd gynyddol o 2019, pan wnaeth 47.91% o'r disgyblion meithrin fynychu Ysgol Gynradd Cogan. Yn 2021, aeth gweddill y disgyblion ymlaen i fynychu'r ysgolion canlynol:

- Ysgol Gynradd Albert – 2.5%
- Dinas Powys – 5%
- Ysgol Gynradd Evenlode – 2.5%
- Ysgol Gynradd Fairfield – 5%
- Ysgol Gynradd Llandochau – 10%
- Tu allan i'r sir – 2.5%
- Ysgol Gynradd St Joseph's – 2.5%
- Ysgol Gynradd Victoria – 5%
- Ysgol Y Deri – 2.5%

Ystyrir bod y rhaniad rhwng ysgolion cynradd eraill yn gymharol isel ac mae'n adlewyrchu blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, er bod disgyblion meithrin yn mynychu o'r tu allan i'r dalgylch, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Gynradd Cogan.



### 3. CWESTIYNAU CYFFREDIN

Mae'r adran hon yn darparu cwestiynau cyffredin a dderbyniwyd drwy gydol y broses statudol mewn perthynas â'r ddau gynnig.

*Os cânt eu gweithredu, beth fyddai'r cynigion yn ei olygu?*

Byddai Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yn dirwyn i ben a byddai'r holl staff a disgyblion o'r cyfnodau meithrin yn cael eu trosglwyddo o dan lywodraethiant Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan, yn y drefn honno. Fodd bynnag, byddai darpariaeth feithrin yn parhau i gael ei darparu o'r adeiladau presennol gyda'r ddau gynnig.

*Beth yw amserlen arfaethedig y gweithrediad?*

Y bwriad yw y bydd y cynigion yn cael eu gweithredu erbyn mis Medi 2022.

*Sut bydd y cynigion hyn yn effeithio ar drefniadau derbyn?*

Cyngor Bro Morgannwg yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgolion. Mae'r holl drefniadau derbyn ym Mro Morgannwg yn destun adolygiad blynyddol.

Y capasiti ar gyfer cyfnod meithrin Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan fyddai 96 o leoedd rhan amser. Ni fyddai'r cynigion hyn yn effeithio ar y nifer derbyn ar gyfer cyfnod cynradd Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan.

Ni fyddai gan blant ar y gofrestr yn y cyfnod meithrin hawl awtomatig i barhau â'u haddysg yn yr un ysgol wrth symud i fyny i ddosbarth derbyn. Byddai'n ofynnol i rieni wneud cais am eu dewis ysgol. Lle mae mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael yn y dosbarth derbyn, byddai lleoedd yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor sy'n blaenoriaethu preswyllo o fewn y dalgylch.

*Sut fydd y cynigion hyn yn effeithio ar y cyrff llywodraethu presennol?*

Byddai staff Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yn trosglwyddo o dan reolaeth cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan, yn y drefn honno.

Er y byddai cyrff llywodraethu Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yn cael eu diddymu o fis Medi 2022, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda chyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan i nodi cyfleoedd i lywodraethwyr drosglwyddo er mwyn sicrhau cysondeb.

Byddai angen i gyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan ddiwygio eu cylchoedd gorchwyl a'u strwythurau i adlewyrchu cynhwysiad y cyfnod meithrin.

*A oes angen i mi ymateb i'r ddau gynnig?*

Gallwch ymateb i'r naill gynnig neu'r llall drwy lenwi'r adrannau perthnasol o'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (drwy'r ffurflen neu'r ddolen isod). Nid oes angen i chi ymateb i'r ddau os nad ydych yn dymuno gwneud hynny.

*Ydy'r ysgol feithrin yn gallu cynnig darpariaeth diwrnod llawn?*

Mae plant yn gymwys i gael lle meithrin rhan amser, fel arfer am bum bore neu bum prynhawn o'r tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd. Heblaw am y gostyngiad o 4 lle a fydd ar gael yn Cogan, nid oes unrhyw newid i'r trefniadau derbyn sydd ar waith o ran cymhwysedd a gynigir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae mwy o

wybodaeth am dderbyniadau meithrin ar gael ar dudalen we [Derbyniadau Meithrinfeydd](#) y Cyngor.

*A fyddai modd agor yr ardd gymunedol i ysgolion / meithrinfeydd ehangach?*

Mater i'r corff llywodraethu yw hwn ac nid yw'n agwedd o'r cynnig hwn.

*Am ba mor hir fydd darpariaeth feithrin yn cael ei chynnig o'r safleoedd presennol? Pwy fydd yn cynnig hyn? Ar ba delerau? Am ba hyd?*

Bydd Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yn aros ar eu safleoedd ac yn eu hadeiladau presennol heb unrhyw gynnydd i'w capasiti presennol. Nid oes cynllun i newid lleoliad y meithrinfeydd fel rhan o'r cynnig hwn.

Lleolir Ysgol Feithrin Bute Cottage 0.7 milltir o Ysgol Gynradd Evenlode. Mae'r adeiladau presennol yn cael eu dosbarthu fel rhai sydd mewn cyflwr boddhaol ac o addasrwydd da. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu, byddai darpariaeth feithrin yn parhau i gael ei darparu o'r adeilad presennol, gydag Ysgol Gynradd Evenlode yn cael ei rheoli fel ysgol ar ddau safle.

Lleolir Ysgol Feithrin Cogan 0.2 milltir o Ysgol Gynradd Cogan. Mae'r adeiladau presennol yn cael eu dosbarthu fel rhai sydd mewn cyflwr boddhaol ac o addasrwydd da. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu, byddai darpariaeth feithrin yn parhau i gael ei darparu o'r adeilad presennol, gydag Ysgol Gynradd Cogan yn cael ei rheoli fel ysgol ar ddau safle.

Mae'r Cyngor wedi dyrannu £1.362m fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu i gefnogi ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth. Fodd bynnag, penderfynodd Bwrdd Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor na fyddai'r prosiect yn ymarferol. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn ceisio cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i ddileu'r prosiect i ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth o'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu gyfredol, i ganiatáu i gyllid gael ei wyro at brosiectau parhaus eraill sy'n rhan o'r rhaglen Band B.

Bydd angen i'r Cyngor sy'n gweithredu fel yr Awdurdod Addysg Lleol adolygu Ysgol Gynradd Evenlode ynghyd ag ysgolion eraill Bro Morgannwg i benderfynu a oes angen eu hailddatblygu. Fel rhan o unrhyw gynnydd ailddatblygu, byddai angen ystyried cynnwys darpariaeth feithrin ar un safle. Fel rhan o unrhyw gynllun, byddai'r Cyngor yn cynnal asesiad dichonoldeb llawn a byddai unrhyw gynlluniau yn destun ymarfer ymgynghori ar wahân fel rhan o'r broses gynllunio. Nid yw'r Cyngor wedi penderfynu eto pa ysgolion fydd yn ffurfio'r iteriad nesaf o'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu y tu hwnt i'r prosiectau Band B presennol. Bydd y rhain yn cael eu llywio'n bennaf gan adroddiadau cyflwr ar ysgolion presennol (gyda'r rhai yn y cyflwr gwaethaf yn cael eu blaenoriaethu) a'r galw am leoedd ysgol yn awr ac yn y dyfodol (gyda'r rhai â'r galw mwyaf yn cael eu blaenoriaethu).

Fodd bynnag, dylid nodi pe bai'r ysgolion meithrin yn y dyfodol yn cael eu symud i leoliad gwahanol o fewn milltir i'r lleoliad presennol, ni fyddai hyn yn ymgysylltu ag Atodlen 2 o Ddeddf 2013 mewn perthynas â newid rheoleiddiedig sy'n ymwneud â throsglwyddo unrhyw ysgol i safle newydd (sy'n berthnasol i feithrinfa a gynhelir). Mae hyn yn golygu na fyddai'n ofynnol cynnal ymgynghoriad addysg statudol ar yr agwedd hon ar gynnig yn y dyfodol os yw'n digwydd. Byddai dal angen deall goblygiadau'r bwriad yn nhermau cynllunio, a fyddai'n destun ymgynghoriad ar sail

ystyriaethau cynllunio perthnasol megis colli man agored, goblygiadau traffig ac ystyriaethau eraill.

## 4. CASGLIAD

Daw'r Cyngor i'r casgliad y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar ddisgyblion presennol ac yn y dyfodol yn Ysgol Feithrin Bute Cottage, Ysgol Feithrin Cogan, Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan. Byddai'r cynnig yn sicrhau cysondeb a chynnydd o ran addysg plant o dair oed ymlaen. Byddai hyn yn sicrhau bod dull cyson o gynllunio a chyflwyno'r cyfnod sylfaen (meithrinfa i flwyddyn dau) ac yn lleihau'r posibilrwydd o darfu yn ystod y cyfnod pontio o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd.

Byddai cyflwyno polisïau, strategaethau ac addysgeg gyson ar draws pob oedran yn arwain at ddisgwyliadau clir ac ethos a rennir sy'n cael ei ddeall gan blant, rhieni a gofawyr ar draws pob cyfnod o addysg gynradd. Byddai'r cynnig hefyd yn cefnogi dull cydlynol o gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion sy'n agored i niwed ar draws y Cyfnod Sylfaen. Byddai un tîm arwain ac un corff llywodraethu ar draws pob ysgol yn arwain at ddileu dyblygu swyddogaethau rheoli a llywodraethu. Byddai symleiddio swyddogaethau rheoli a gweinyddu, yn ogystal â'r gallu i drefnu contractau ar y cyd a chytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer adeiladau a gwasanaethau cymorth eraill, yn arwain at ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael yn fwy effeithiol. Byddai'r ysgolion unedig yn ei gwneud hi'n haws ymgysylltu â rhieni, yn enwedig lle mae ganddynt blant o oedran meithrin a chynradd. Dim ond un set o bolisïau ac un set o gyfathrebiadau fyddai angen i rieni ymgysylltu â nhw. Byddai'r cynnigion yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau ariannol ar draws pob ysgol. Yn gyffredinol, mae ysgolion mwy hefyd yn gallu sicrhau gwell gwerth am arian trwy arbedion maint.

Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr a byddai'n sicrhau bod staff a llywodraethwyr yr ysgolion unigol yn cael eu cefnogi'n llawn wrth weithredu'r cynnigion pe byddent yn symud ymlaen, er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn heb fawr o darfu ar y sefyllfa bresennol.

## 5. ARGYMHELLION

Argymhellir:

1. Bod Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu ynghyd â'r gwrthwynebiadau unigol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.
2. Bod Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo cyhoeddiad yr adroddiad gwrthwynebu.
3. Bod Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo gweithrediad y cynigion canlynol:

**Cynnig 1:** Uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode trwy:


- Newid ystod oedran isaf y disgyblion yn Ysgol Gynradd Evenlode o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Evenlode i wneud lle i'r 96 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol;
- Cau Ysgol Feithrin Bute Cottage a throsglwyddo holl aelodau staff a disgyblion y cyfnod meithrin i fod o dan lywodraethiant Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

**Cynnig 2:** Uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan trwy:


- Newid ystod oedran isaf y disgyblion yn Ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Cogan i wneud lle i'r 96 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol ;
- Cau Ysgol Feithrin Cogan a throsglwyddo holl aelodau staff a disgyblion y cyfnod meithrin i fod o dan lywodraethiant Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022.

4. Bod Cabinet y Cyngor yn cyfeirio at y Ddogfen Ymgynghori, yr Adroddiad Ymgynghori, yr Hysbysiad Statudol, yr Adroddiad Gwrthwynebu a'r Gwrthwynebiadau i'r Cyngor cyn gwneud penderfyniad terfynol, yn unol ag adran 51 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.


## 5. ATODIAD 1 – CRYNODEB O'R GWRTHWYNEBIADAU



## Gwrthwynebiadau sy'n ymwneud â'r Ddau Gynnig



## Gwrthwynebiadau sy'n ymwneud â Chynnig 1 yn Unig





### Gwrthwynebiadau sy'n ymwneud â Chynnig 2 yn Unig

